Cyflwyniad Chwarae Teg i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:

Gofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt

Tachwedd 2021

Cyflwyniad

Chwarae Teg yw prif elusen Cymru ar gyfer cydraddoldeb rhywedd. Rydym yn gweithio er mwyn sicrhau Cymru decach lle mae pob menyw yn cyflawni ac yn ffynnu, gan sicrhau bod menywod yn mwynhau cydraddoldeb economaidd, yn cael eu cynrychioli'n deg ym mhob agwedd o fywyd ac nad ydynt mewn perygl o dlodi, trais nac allgáu cymdeithasol.

Mae gofal plant yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i fenywod rhag camu i mewn i'r gweithle a symud ymlaen ynddo, gan arwain at anghydraddoldeb yn y farchnad lafur ac anghydraddoldeb incwm parhaus. Mae hyn yn gadael menywod yn fwy agored i galedi ariannol a thlodi, ac mae cost economaidd ehangach hefyd.

Croesawyd buddsoddiad mewn darpariaeth gofal plant yn ystod tymor diwethaf y Senedd, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i ddarparu'r system addysg a gofal y blynyddoedd cynnar sydd ei hangen ar Gymru er mwyn sicrhau canlyniadau addysgol da a chefnogi menywod, yn enwedig yn y farchnad lafur. Bydd yn anodd, os nad yn amhosibl, gwireddu uchelgeisiau ar gyfer Cymru gyfartal, oni bai ein bod yn datrys y broblem gofal plant.

Negeseuon Allweddol

1. Mae diffyg gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn parhau i fod yn rhwystr allweddol i fenywod rhag camu mewn i'r gweithle a symud ymlaen ynddo. Ar hyn o bryd, mae gofal plant yng Nghymru yn glytwaith o ddarpariaeth sy'n rhy aml yn gymhleth, yn anhygyrch, yn anhyblyg ac yn ddrud.
2. Croesawyd y buddsoddiad ychwanegol mewn darpariaeth gofal plant yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf drwy'r Cynnig Gofal Plant, ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n gymwys. Roedd Gweithredu'r Cynnig yn fan cychwyn da tuag at ddarpariaeth fwy cyffredinol, gan adeiladu ar gymorth presennol y Cyfnod Sylfaen a dod â buddsoddiad newydd i'r sector gofal plant. Mae'n bwysig bod gwaith yn parhau y tymor hwn i gryfhau'r system addysg a gofal y blynyddoedd cynnar ymhellach yng Nghymru.
3. Mae angen system addysg a gofal y blynyddoedd cynnar integredig ar Gymru, sy'n sicrhau cyrhaeddiad addysgol uchel tra'n fforddiadwy ac yn hygyrch, er mwyn cefnogi menywod i gamu mewn i'r gweithle ac i symud ymlaen ynddo. Y ***nod yw darparu gofal plant llawn amser rhad ac am ddim, o ansawdd da i bob plentyn 0-4 oed***. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser ac arian, ond yn y pen draw bydd nid yn unig yn sicrhau Cymru fwy cyfartal ond bydd hefyd yn arwain at fanteision economaidd. Mae nifer o gamau y gellid eu cymryd y tymor hwn yn y Senedd tuag at y nod hwn ac i wella'r ddarpariaeth gofal plant. Mae hyn yn cynnwys:
    a. Dod ag addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar ynghyd fel un adran o fewn y llywodraeth er mwyn cydlynu polisi a chryfhau arolygiaeth Weinidogol.

b. Buddsoddi mewn seilwaith gofal plant i gefnogi cydleoli'r blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn un lleoliad.
c. Ymestyn y cynnig gofal plant presennol i blant o ddwy oed a buddsoddi mewn gofal plant a gofal gwyliau cofleidiol er mwyn sicrhau eu bod ar gael ac yn fforddiadwy i bawb. Gellid ystyried gosod costau ar raddfa amrywiol wrth i oriau gynyddu.
d. Datblygu siop un stop ar gyfer gwybodaeth er mwyn egluro'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni, ni waeth a yw'n gynllun a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu Awdurdod Lleol.

Ymateb Manwl

1. I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant bresennol yng Nghymru yn cefnogi rhieni'n ddigonol, yn enwedig mamau, i gamu mewn i waith, parhau i weithio a symud ymlaen yn y gweithle, a pha newidiadau y gallai fod eu hangen er mwyn gwella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal plant wrth wneud hyn

1.1. Mae diffyg gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn parhau i fod yn rhwystr allweddol i fenywod rhag dod i'r gweithle a symud ymlaen ynddo. Derbynnir yn gyffredinol bod "cyfranogiad llafur llawn menywod yn gofyn i ofal plant fod ar gael yn llawn amser ac i fodloni gofynion gwaith yn ystod oriau gwaith y rhieni a'r gwyliau ysgol."[1]

1.2. Ar hyn o bryd, mae gofal plant yng Nghymru yn glytwaith o ddarpariaeth sy'n rhy aml yn gymhleth, yn anhygyrch, yn anhyblyg ac yn ddrud. Mae cymhwysedd yn gysylltiedig ag oedran eich plentyn, os ydych yn gweithio, a ble rydych yn byw. Mae hyn yn creu dryswch a chafwyd problemau gyda rhieni'n cael eu gadael gyda biliau gofal plant annisgwyl o ganlyniad.[2]

1.3. Mae cost gofal plant yn afresymol i lawer nad ydynt yn gymwys i gael darpariaeth â chymhorthdal. Mae gofal plant llawn amser yng Nghymru i blant dan ddwy oed yn costio £227.64 yr wythnos.[3] Incwm wythnosol cyfartalog menywod yng Nghymru yw £380, sy'n golygu bod gofal plant llawn amser yn cymryd 60% o'u hincwm.[4]

1.4. Mae argaeledd gofal plant hefyd yn her, gyda dim ond hanner awdurdodau lleol Cymru yn darparu digon o ofal plant i fodloni'r hawliau ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar am ddim.[5] Mae argaeledd yn waeth i'r rhai sydd â phatrymau gwaith cyfnewidiol neu anhraddodiadol, a gall anhyblygrwydd darpariaeth â chymhorthdal arwain at gostau a phwysau ychwanegol ar fywydau gwaith menywod.

1.5. Mae angen system addysg a gofal y blynyddoedd cynnar integredig ar Gymru sy'n sicrhau cyrhaeddiad addysgol uchel tra'n fforddiadwy ac yn hygyrch i gefnogi menywod i ddod i'r gweithle a symud ymlaen ynddo. Y nod yw darparu gofal plant llawn amser am ddim, o ansawdd da i bob plentyn 0-4 oed. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser ac arian, ond mae camau y gellid eu cymryd y tymor hwn tuag at y nod hwn ac i wella'r ddarpariaeth gofal plant:

---

[1] Adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd o'r Comisiwn i Senedd Ewrop, y Cyngor, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau (2018) *Barcelona objectives on the development of childcare facilities for young people with a view to increase female labour participation, strike a work-life balance for working parents and bring about sustainable and inclusive growth in Europe*; OECD (2017), *Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care* https://read.oecd-ilibrary.org/education/starting-strong-2017_9789264276116-en#page32 [CYRCHWYD 11 Ebrill 2019]

[2] BBC "Childcare Offer for Wales: Parents 'shocked' by bills" 5 Ionawr 2020 https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-50957390 Cyrchwyd Mehefin 2020

[3] Coram Family and Childcare (2021) *Childcare Survey 2021*

[4] SYG *Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021 Canlyniadau dros dro* Cyrchwyd drwy Nomis 27.10.21

[5] Coram Family and Childcare (2021) *Childcare Survey 2021*

1.5.1. Dod â'r cyfrifoldeb am ofal ac addysg y blynyddoedd cynnar ynghyd fel un adran o fewn y llywodraeth er mwyn cydlynu polisi a chryfhau arolygiaeth Weinidogol.
1.5.2. Cydredeg cymwysterau, rheoliadau ac arolygiadau ar draws darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant
1.5.3. Creu llwybr dilyniant clir i'r rhai hynny sy'n ymuno â'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n arwain at gymwysterau lefel gradd
1.5.4. Buddsoddi mewn seilwaith gofal plant i gefnogi cydleoli'r blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn un lleoliad.
1.5.5. Ymestyn y cynnig gofal plant presennol i blant o ddwy oed a buddsoddi mewn gofal plant a gofal gwyliau cofleidiol i sicrhau eu bod ar gael ac yn fforddiadwy i bawb. Gellid ystyried gosod costau ar raddfa amrywiol wrth i oriau gynyddu.
1.5.6. Datblygu siop un stop ar gyfer gwybodaeth er mwyn egluro'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni, ni waeth a yw'n gynllun a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu Awdurdod Lleol

2. Yr effaith y mae'r Cynnig Gofal Plant yn benodol wedi'i chael o ran cyflawni amcan Llywodraeth Cymru o "helpu rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu'r oriau y maent yn gweithio" A yw darpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ddigon hyblyg i gefnogi cyflogaeth rhieni, yn enwedig mamau, sydd mewn gwahanol grwpiau demograffig ac yn profi amgylchiadau gwahanol

2.1. Croesawyd y buddsoddiad ychwanegol mewn darpariaeth gofal plant yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf drwy'r Cynnig Gofal Plant, ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n gymwys. Mae gwerthusiadau o'r Cynnig wedi dangos bod y gofal plant ychwanegol y gall pobl ei gael yn galluogi rhai i ddychwelyd i'r gwaith yn llawn amser ac yn gadael teuluoedd â mwy o incwm gwario, gan leihau pwysau ariannol.
2.2. Fodd bynnag, mae rhai heriau gyda'r Cynnig y mae angen eu goresgyn os yw am gefnogi mamau'n effeithiol i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu horiau.
2.3. Yn gyntaf, mae'r cymorth yn canolbwyntio ar blant tair a phedair oed. Erbyn hyn, mae llawer o rieni eisoes wedi gwneud penderfyniadau ynghylch sut i addasu eu patrymau gwaith i ddarparu ar gyfer cyfrifoldebau gofalu. Mae hyn yn aml yn arwain at fenywod yn lleihau eu horiau neu'n gadael y gweithlu'n gyfan gwbl, gan fod gofal plant i blant o dan dair oed yn parhau i fod yn rhy ddrud.
2.4. Mae cyflwyno'r Cynnig wedi'i gymhlethu ymhellach o ganlyniad i'r ddwy gydran – addysg blynyddoedd cynnar drwy'r Cyfnod Sylfaen a gofal plant ffurfiol – yn cael eu darparu mewn gwahanol ffyrdd ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol.[6]
2.5. Gall y materion hyn fod yn arbennig o ddifrifol i fenywod ar incwm isel. Canfu ein hymchwil i dlodi menywod yn 2019 fod costau gofal plant hyd at dair oed yn waharddol i'r holl fenywod heblaw'r rheini sy'n ennill uwchlaw'r cyfartaledd. [7] Canfuom hefyd nad yw gweithio'n opsiwn i lawer o fenywod mewn galwedigaethau tâl isel, oni bai bod ganddynt deulu i ddarparu gofal, ac er bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei werthfawrogi gan fenywod sy'n gweithio 30+ awr yr wythnos, am fod pedair o bob deg menyw yn gweithio'n rhan-amser, nid yw bob amser yn addas iawn ac nid yw ar gael o gwbl i fenywod ar yr incymau isaf.[8]

[6] Llywodraeth Cymru (2019) *Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Crynodeb Gweithredol Blwyddyn Dau*
[7] Winkler, V. (2019) *Yn Gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw,* Chwarae Teg
[8] Ibid.

2.6. Mewn rhai ffyrdd, roedd gweithredu'r Cynnig yn fan cychwyn da tuag at ddarpariaeth fwy cyffredinol, gan adeiladu ar gymorth presennol y Cyfnod Sylfaen a dod â buddsoddiad newydd i'r sector gofal plant. Mae'n bwysig bod gwaith yn parhau y tymor hwn i gryfhau'r system addysg a gofal y blynyddoedd cynnar ymhellach yng Nghymru.

3. Effaith argaeledd gofal plant cyfyngedig ar lefelau cynhyrchiant Cymru

3.1. Gwyddom fod gofal plant aneffeithiol yn atal menywod rhag camu mewn i'r gweithle a symud ymlaen ynddo. Mae hyn yn cael effaith economaidd. Amcangyfrifodd ymchwil a gynhaliwyd gennym yn 2018 y gellid ychwanegu £13.6bn at economi Cymru erbyn 2028, pe baem yn cydraddoli cyfraddau cyflogaeth menywod a dynion, yn cynyddu'r oriau cyfartalog y mae menywod yn gweithio ac yn cynyddu nifer y menywod sy'n gweithio mewn sectorau cynhyrchiant uchel.[9] Mae gwell darpariaeth gofal plant yn hanfodol er mwyn gwireddu'r potensial economaidd hwn.

3.2. Wedi dweud hynny, mae hefyd yn bwysig edrych y tu hwnt i fesurau traddodiadol fel cynhyrchiant a CMC/GYC. Mae gwerth enfawr i Gymru a'r DU am y gwaith di-dâl a wneir i raddau helaeth gan fenywod, er nad yw'n cael ei gyfrif mewn mesurau economaidd traddodiadol. Yn 2016, roedd gwerth gwaith di-dâl a wnaed yn y DU yn werth £1.24tr.[10] Heb y gwaith di-dâl hwn, ni allai llawer o agweddau o'n bywydau bob dydd a'n heconomi weithredu.

3.3. Gyda ffocws cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar les a chydraddoldeb, mae hefyd yn bwysig ystyried sut y gallai mwy o ddarpariaeth gofal plant helpu i gau'r bylchau rhwng y rhyweddau, a bod o fudd i les pobl drwy well diogelwch ariannol, mwy o amser hamdden a llai o straen o gydbwyso gwaith cyflogedig a gwaith di-dâl.

4. Sut mae trefniadau gofal plant wedi effeithio ar gyflogaeth rhieni yn ystod y pandemig coronafeirws, yn enwedig mewn perthynas â mamau. Y gwersi y gellid eu dysgu i ddarparu gwell cymorth yn ystod unrhyw gyfnodau clo yn y dyfodol neu gyfyngiadau llymach

4.1. Canfu ein hadroddiad *Jyglo Cyson o Ddydd i Ddydd: Gofal Plant ac Addysg Gartref yn ystod y Cyfnod Clo Cyntaf*, wrth i ysgolion a meithrinfeydd gau, mai menywod yn bennaf oedd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ofal plant ac addysg yn y cartref, ac fe'u gadawyd wedi blino, eu llethu a'u tanbrisio o ganlyniad.[11] Mae hefyd yn hanfodol bwysig nodi nad yw'r argyfwng hwn wedi cael effaith gyfartal ar bob menyw. Roedd llawer o grwpiau o fenywod yn wynebu heriau ac anfantais ychwanegol, gan gynnwys rhieni sengl a menywod ar incwm isel, y mae effaith ariannol yr argyfwng yn achos pryder sylweddol iddynt.[12]

4.2. Dengys dadansoddiad o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) fod menywod yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn fwy tebygol o fod wedi rhoi'r gorau i'w swyddi neu wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, bod mamau'n treulio llai o amser ar waith cyflogedig a mwy o amser ar waith di-dâl, gyda mamau ar gyfartaledd yn gwneud dim ond 35% o nifer yr oriau gwaith di-dor y gwnaeth tadau.[13]

---

[9] Chwarae Teg (2018) *Gwerth Economaidd Cydraddoldeb Rhywiol*

[10] https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/satelliteaccounts/articles/householdsatelliteaccounts/2015and2016estimates Cyrchwyd 27/10/21

[11] Chwarae Teg (2021) *Jyglo Cyson o Ddydd i Ddydd: Gofal Plant ac Addysgu Gartref yn ystod y Cyfnod Clo Cyntaf*

[12] Ibid.

[13] IFS "How are mothers and fathers balancing work and family under lockdown" https://ifs.org.uk/publications/14860 Cyrchwyd 27/10/21

4.3. Dangosodd y pandemig pa mor ansicr yw'r system gofal plant sydd gennym, sy'n dibynnu'n drwm ar waith di-dâl menywod. Dangosodd hefyd fod gofal yn dal i gael ei ystyried yn gyfrifoldeb i fenyw, a welwyd yn y ffordd y syrthiodd gofal ychwanegol i fenywod unwaith nad oedd y trefniadau ffurfiol ac anffurfiol arferol ar gael mwyach.

5. Yr hyn y gall Cymru ei ddysgu o fodelau eraill o ddarpariaeth gofal plant sy'n cael eu gweithredu yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol, a'r ymarfer sy'n dod i'r amlwg o ran cefnogi cyflogaeth rhieni, ac i ba raddau y gallai'r modelau hyn fod yn drosglwyddadwy i gyd-destun Cymreig

5.1. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal plant yn debyg mewn llawer o wledydd. Mae materion a nodwyd yn aml yn cynnwys fforddiadwyedd, hygyrchedd, hyblygrwydd ac ansawdd. Yn wir, cyflwynodd Comisiwn yr UE yn 2018 fframwaith ansawdd cynhwysfawr ar gyfer systemau addysg a gofal y blynyddoedd cynnar (ECEC) yn seiliedig ar bum egwyddor[14]:

- Mynediad a fforddiadwyedd i bob teulu
- Cymhwysterau a DPP y gweithlu
- Datblygu'r cwricwlwm gydag addysgu cyfannol mewn ffordd gyfranogol gyda phlant a rhieni
- Monitro a gwerthuso gwasanaethau a chyfleusterau addysg a gofal y blynyddoedd cynnar
- Llywodraethu ac ariannu

5.2. Daw'r gost i'r amlwg fel mater allweddol mewn llawer o wledydd. Mae gwahanol wledydd wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o fynd i'r afael â chost gofal plant, gan gynnwys[15]:

- Isafswm y lefelau o ofal plant ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (e.e. yr Almaen a'r DU)
- Cymorthdaliadau i rieni newydd (e.e. Gwlad Belg, yr Iseldiroedd)
- Gostyngiadau treth i deuluoedd
- Gofal plant sy'n dibynnu ar brawf modd a ffioedd wedi'u capio (e.e. Sweden)
- Mynediad Cyffredinol (e.e. y Ffindir a Denmarc)
- Cymhellion cyllidol i gwmnïau (e.e. mae Awstria yn caniatáu didyniad o incwm trethadwy i gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau gofal plant yn fewnol neu'n rhoi buddion i weithwyr ar ffurf gwasanaethau gofal plant)

5.3. Gellir tynnu ar nifer o wersi o ymarfer rhyngwladol er budd Cymru:

5.3.1. Mae darpariaeth lwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad a buddsoddiad gwleidyddol parhaus. Nid oes rheswm pam na all addysg a gofal y blynyddoedd cynnar sicrhau canlyniadau da i blant tra hefyd yn cefnogi rhieni'n effeithiol i chwarae rhan lawn a gweithredol yn y farchnad lafur.

5.3.2. Mae'n amlwg na ellir ystyried polisi addysg a gofal y blynyddoedd cynnar ar ei ben ei hun. Er ei fod yn rhan hanfodol o'r ateb i anghydraddoldeb economaidd menywod, er mwyn cefnogi rhieni i gysoni gwaith a bywyd teuluol yn effeithiol, rhaid i ni ystyried sut mae darpariaeth addysg a gofal y blynyddoedd cynnar yn rhyngweithio â materion fel absenoldeb rhiant a gweithio hyblyg.

5.3.3. Mae manteision amlwg i weld addysg a gofal y blynyddoedd cynnar fel un maes polisi a sicrhau bod y cyfrifoldeb am hyn yn rhan o un weinyddiaeth neu asiantaeth y Llywodraeth. Mae hyn yn cefnogi dull mwy cydlynol o gynllunio a darparu. Gall edrych ar addysg a gofal y blynyddoedd cynnar yn fwy yn yr hir dymor yn hytrach nag ar grwpiau oedran penodol hefyd gefnogi cydlyniant a sicrhau bod cymorth yn parhau i rieni plant oedran ysgol.

[14] Comisiwn yr UE *Barcelona Objectives*
[15] Ibid.

5.3.4. Mae gan y gwledydd mwyaf llwyddiannus systemau sy'n cefnogi rhieni i weithio'n llawn amser. Mae gwledydd sydd wedi blaenoriaethu darpariaeth ran-amser, megis yr Iseldiroedd, wedi gweld mwy o gyflogaeth ran-amser ymhlith mamau, y gwyddom sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb incwm.

5.3.5. Gall cydleoli gwasanaethau gofal plant leddfu'r pwysau ar rieni sy'n ceisio cydbwyso gwaith a chartref, yn enwedig mewn canolfannau sy'n cynnig gofal plant o 7.00-19.00.

5.3.6. Gall siop un stop ar gyfer gwybodaeth, fel sy'n cael ei weithredu yng Nghanada, helpu i fynd i'r afael â'r dryswch y mae rhieni'n teimlo ynghylch gwahanol ddarpariaeth a'r hyn y mae ganddynt hawl iddo.

6. Sut y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ariannol ac ymarferol fel argaeledd gofal plant mewn unrhyw ddatblygiadau polisi yn y dyfodol er mwyn ymestyn darpariaeth gofal plant

6.1. Nid oes amheuaeth y bydd darparu'r system addysg a gofal y blynyddoedd cynnar cyffredinol sydd ei hangen ar Gymru yn costio arian, a bydd yn cymryd amser i'w chyflawni. Byddai buddsoddiad ychwanegol mewn gofal plant ar lefel Llywodraeth y DU sy'n arwain at arian ychwanegol yn dod i Gymru yn cael ei groesawu a byddem yn annog Gweinidogion Cymru i gyflwyno'r achos hwn yn gryf i San Steffan. Rydym yn cefnogi galwadau gan Grŵp Cyllideb Menywod y DU ac eraill am gynnydd mewn gwariant gofal plant yn Lloegr i £15.5bn y flwyddyn.[16]

6.2. Fodd bynnag, mae camau y gellir eu cymryd heb y newid hwn mewn cyllid ar lefel y DU, a gallai Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau gwahanol i flaenoriaethu buddsoddiad mewn gofal yn well, sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol er mwyn darparu'r economi werdd, deg a gofalgar sydd wir ei hangen arnom.

6.3. Rydym wedi amlinellu uchod (yn 1.5) y camau y credwn y dylid eu cymryd ar y llwybr tuag at ddarpariaeth gyffredinol ac rydym yn cefnogi buddsoddiad parhaus mewn seilwaith gofal plant a'r gweithlu gofal plant, sy'n hanfodol er mwyn tyfu'r elfen bwysig hon o'n heconomi. Dylid ystyried y modelau gorau o ran darpariaeth gofal plant, gyda chydbwysedd da rhwng y sector preifat, menter gymdeithasol, nid-er-elw a'r sector cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Natasha Davies
Arweinydd Polisi ac Ymchwil

Natasha.davies@chwaraeteg.com

07837 284695

Tomos Evans
Partner Polisi a Materion Cyhoeddus

Tomos.Evans@chwaraeteg.com

07823 467466

[16] UK Women's Budget Group (2021) *Comprehensive Spending Review 2021: A Joint Representation from the UK Women's Budget Group*

Pwy ydym ni?

Ein gweledigaeth yw Cymru decach lle gall pob menyw gyflawni a ffynnu. Ein cenhadaeth yw ysbrydoli, arwain a darparu cydraddoldeb rhywedd yng Nghymru.

Mae Chwarae Teg wedi ymrwymo i Gymru lle mae pob menyw'n cael ei chynrychioli, ei grymuso ac yn gallu ffynnu ar bob lefel yn yr economi a bywyd cyhoeddus waeth beth fo'i chefndir neu ei statws cymdeithasol.

Mae Chwarae Teg yn elusen gofrestredig. Rhif elusen: 1084466 - FAIRPLAY (Workforce) Ltd.

Chwarae Teg